

NOSC 2026 Rhif 183

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026

Gwnaed

14 Hydref 2026

Yn dod i rym

15 Hydref 2026

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 41(2)(a) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(a), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu gwneud ar 14 Hydref 2026 a deuant i rym ar 15 Hydref 2026.

Diwygio Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) 2024

2.—(1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Meddygol Byrddau Iechyd Lleol (Cymru) 2024(b), a ddaeth i rym ar 3 Rhagfyr 2024, wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng nghyfarwyddyd 1(4), yn y diffiniad o "gwasanaethau unedig"—

(a) yn lle "rheoliad 17" rhodder "rheoliadau 17 a 18(2)";

(b) hepgorer "ac a ddarperir yn ystod oriau craidd".

(3) Yng nghyfarwyddyd 5(a), ar ôl "Atodlen 2" mewnosoder "i'r Rheoliadau GMC".

(4) Yng nghyfarwyddyd 9(1), yn lle "(neu, yn achos plentyn neu oedolyn sydd heb alluedd, y person a wnaeth y cais ar ran y ceisydd)" rhodder "neu berson sy'n gwneud cais ar ran y person hwnnw".

(5) Yng nghyfarwyddyd 15(3), yn lle "a 93" rhodder ", 93 a 93A".



(a) 2006 p. 42.
(b) 2024 Rhif 49.

Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 14 Hydref 2026